Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

Medi 2020

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk.

2. Sylwadau cyffredinol

2.1 Rydym yn croesawu'r cyfle i roi sylw ar y Safonau'r Gymraeg arfaethedig. Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ystyried y pryderon a godwyd gennym ni a'r rheoleiddwyr eraill ynghylch y rheoliadau a gynigiwyd yn 2016. Rydym yn ystyried y cynigion diwygiedig i fod yn gyffredinol fwy rhesymol, cymesur a phriodol ar gyfer ein rôl, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gyfnerthu ein cynnig yn y Gymraeg i'r cyhoedd yn unol â'n dyletswyddau cyfreithiol.

2.2 Mae gan yr Awdurdod gylch gorchwyl ar draws y Deyrnas Unedig. Ein prif swyddogaethau yw:

- i adolygu gwaith y rheoleiddwyr gweithwyr iechyd a gofal trwy adolygiadau perfformiad a'r broses Adran 29, sy'n darparu disgresiwn i ni gyfeirio penderfyniadau addasrwydd i ymarfer nad ydynt yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd at yr Uchel Lys;
- achredu cofrestrau gwirfoddol ymarferwyr iechyd a gofal nad ydynt wedi eu rheoleiddio'n statudol; a
- cyflawni ymchwil a darparu cyngor polisi i lywodraethau'r Deyrnas Unedig i wella rheoleiddio.

2.3 Rydym yn dîm o 40 gyda swyddfa yn Llundain; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonom yn gweithio o bell ar hyn o bryd oherwydd y pandemig. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw siaradwyr Cymraeg rhugl yn y sefydliad ac nid oes unrhyw rolau yn galw am ryngweithio arwyddocaol gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

2.4 Mae'r Awdurdod wedi ei ariannu gan reoleiddwyr proffesiynol (a'r cofrestrau achrededig) yr ydym yn eu goruchwylio, sydd yn eu tro wedi eu hariannu gan eu haelodau cofrestredig. Nhw felly fydd yn talu costau atodol cydymffurfio gyda'r safonau.

2.5 Ar gyfer rhai o'r safonau mae wedi bod yn anodd asesu a fyddai cydymffurfiad yn rhesymol neu'n gymesur ar gyfer yr Awdurdod. Mae ein sylwadau isod yn ffocysu ar ble byddem yn croesawu eglurhad pellach o ddiffiniadau neu esboniad ar sut ddylid dehongli safon. Ar gyfer safonau eraill, rydym wedi ei chael yn anodd amcangyfrif costau oherwydd diffyg data gwaelodlin, fel yr amlygwyd yn ein hasesiad effaith rheoleiddiol (ar ddod).

2.6 Ar hyn o bryd, ychydig iawn o geisiadau a dderbyniwn i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg neu ohebiaeth yn y Gymraeg (llai nag unwaith y flwyddyn), felly mae'n her i ragweld galw yn y dyfodol a'r costau cysylltiedig. Rydym wedi ehangu ar hyn yn ein hasesiad effaith rheoleiddiol.

3. Sylwadau manwl ar gwestiynau ymgynghori penodol

Cwestiwn 1

3.1 Rydym yn deall mai dim ond wrth ddarparu gwasanaethau i 'unigolyn', sef 'person naturiol sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn gweithredu yn ei enw ei hun' y bwriedir i'r safonau cyflenwi gwasanaeth fod yn berthnasol. Yn wahanol i'r rheoleiddwyr proffesiynol, nid oes gennym unigolion sydd wedi cofrestru ac nid ydym yn ymchwilio'n unionyrchol i bryderon gan y cyhoedd ynghylch addasrwydd i ymarfer gweithwyr proffesiynol. Ein prif gyswllt gyda chleifion a'r cyhoedd yw trwy'r wybodaeth a chyhoeddiadau a ddarparwn ar ein gwefan a sianeli digidol eraill, a thrwy ein gwaith polisi ac ymchwil.

Achosion cyfreithiol – erratum

3.2 Rydym yn falch bod rheoliad 3(2) yn cydnabod ein rôl unigryw ymysg y rheoleiddwyr ac yn atal awdurdodiad i'r Comisiynydd wneud y safon parthed achosion cyfreithiol yn berthnasol i'r Awdurdod. Fodd bynnag, fe nodwn fod yna wall ymddangosiadol yn y drafft, sy'n datgan 'nid awdurdodir y Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safonau 23 i 26.' Credwn y dylai hyn ddweud safonau 22 i 25. Byddem yn croesawu cywiro hyn neu eglurhad pellach os nad yw'n wall.

Diffiniad o 'rai sydd wedi cofrestru' (Safon 19)

3.3 Nid yw'r Awdurdod yn cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sydd wedi eu rheoleiddio'n statudol. Fodd bynnag, rydym yn achredu cofrestrau gwirfoddol ymarferwyr iechyd a gofal nad ydynt yn destun rheoleiddio statudol, ble mae'r gofrestr yn bodloni meini prawf i dderbyn ein Nod Ansawdd. Mae'r holl gofrestrau achrededig cyfredol yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig (ac eithrio un sy'n benodol i'r Alban) ac nid oes yr un wedi ei leoli'n bennaf yng Nghymru, ond mae'n bosibl y gallai cofrestr wirfoddol benodol i Gymru ymgeisio am achrediad yn y dyfodol.

3.4 Nodwn y diffiniadau a roddir ar gyfer 'un sydd wedi cofrestru' fel person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sydd wedi ei gofrestru â chorff neu'n gwneud cais i fod wedi ei gofrestru â chorff ac o 'unigolyn' fel person yng Nghymru yn gweithredu yn ei enw ei hun (yn Rheoliad 1); ac o 'bersonau' i gynnwys unigolion, rhai sydd wedi cofrestru, a chyrff corfforaethol (3.3 yn y

ddogfen ymgynghori). Byddem yn croesawu eglurhad ar sut fyddai'r cofrestrau achrededig cyfredol neu ddarpar yn cael eu categoreiddio, sydd ag oblygiadau o ran safon 19. Ein dehongliad o'r safon yw na fyddai, fel cyrff corfforaethol, yn berthnasol i'r broses ymgeisio ar gyfer cofrestrau achrededig.

Triniaeth gyfartal o'r Gymraeg a'r Saesneg ac oedi rhesymol

3.5 Rydym yn ymroddedig i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, fel y sefydlwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg 2009. Ein nod ar hyn o bryd yw gwneud hyn trwy ddarparu fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau perthnasol, fel ein hadroddiad blynyddol, cynllun busnes ac unrhyw ymgynghoriad a fyddai'n debygol o fod o ddiddordeb i randdeiliaid yng Nghymru, a thrwy ymarferoldeb dwyieithog tudalennau allweddol ar ein gwefan. Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a byddem yn ceisio ymateb yn Gymraeg ble'n briodol gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu allanol.

3.6 Rydym yn ddibynnol ar wasanaeth cyfieithu allanol gan mai sefydliad bychan ydym gyda swyddfa yn Llundain ac ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg. Mae defnyddio gwasanaeth cyfieithu yn anochel yn arwain at oedi. Byddai felly'n afrealistig i'r Awdurdod warantu na fyddai yna unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth neu ddarparu eitemau penodol yn Gymraeg (fel yr awgrymir yn safonau 2, 4 a 29) o gymharu â'r Saesneg.

3.7 Felly hefyd, teimlwn y byddai oedi gohebiaeth yn Saesneg i sicrhau amser ymateb cyfartal yn afresymol ac mewn achosion eithafol, fe allai o bosibl beryglu diogelwch y cyhoedd. Gan ein bod yn derbyn lefel mor isel o ohebiaeth neu alw am wasanaethau yn y Gymraeg (llai nag unwaith y flwyddyn), byddai'n anghymesur i ni gydymffurfio'n llawn gyda rhai o'r safonau arfaethedig ble mae'n ofynnol na fydd yna unrhyw oedi.

3.8 Rydym yn cydnabod y bydd y Comisiynydd yn gallu dewis safonau o'r rheoliadau, ac y gall bennu ymhellach naill ai i ba raddau, neu amodau o ran pryd fydd yn ofynnol i gorff gydymffurfio. Fodd bynnag, byddem yn croesawu mwy o eglurder ynghylch cwmpas gweithredu'r safonau canlynol, gan y byddai hyn yn cael effaith arwyddocaol ar ein gallu i gyflawni:

- **Safon 2 (cychwyn gohebiaeth)** – Byddwn yn gallu gwneud hyn yn gyffredinol; fodd bynnag, byddai'n heriol iawn i ni gydymffurfio pe byddai'r safon hon yn berthnasol i'n cylchlythyr oherwydd ei ymarferoldeb. Ni allwn ychwaith wybod os oes yna unigolion sydd eisiau ei dderbyn yn Gymraeg o'r rhestr cysylltiadau, er y gallem ddynodi yn ein cylchlythyr y byddwn yn darparu cyfieithiad ar gais.
- **Safon 29 (hysbysiadau swyddogol)** – Byddai esboniad pellach ynghylch ystyr hysbysiad swyddogol sy'n cael ei gyhoeddi neu arddangos yng Nghymru ac sy'n ymwneud â gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru yn ddefnyddiol, yn benodol: os byddai hyn yn ymestyn i eitemau ar draws y Deyrnas Unedig (fel datganiadau i'r wasg, hysbysiadau achredu, a'r nodiadau o gyfarfodydd achos Adran 29); beth fyddai'n cael ei ystyried i fod yn wasanaeth a ddarperir yng Nghymru; ac, os yw hyn yn cynnwys eitemau a gyhoeddir ar-lein yn unig.

- **Safon 33 (hunaniaeth gorfforaethol)** – Nodwn fod Rheoliad 2(1) Rhan 3(35) yn datgan fod y safon hon yn cynnwys sut mae'r corff yn cyflwyno ei hun trwy frandio a sloganau, megis brandio a sloganau sydd wedi ei argraffu ar ei bapur ysgrifennu. Fel sefydliad bychan heb unrhyw bresenoldeb ffisegol yng Nghymru, teimlwn y byddai'n anghymesur i ni gydymffurfio'n llawn yma (er enghraifft, trwy newid ein pennawd llythyr, llofnodion e-bost neu ein henw neu logo ar ddeunyddiau na fyddant yn cael eu defnyddio yng Nghymru) gan na fyddai hyn yn ymddangos i fod yn ddefnydd darbodus o gyllid. Mae gennym hefyd rai pryderon y gallai cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i'r fath raddau greu argraff anghywir o allu'r Awdurdod i gyfathrebu yn Gymraeg neu ein presenoldeb ffisegol yng Nghymru.

Cyfarfodydd (Safonau 8-9C)

3.9 Ar hyn o bryd, nid yw'r Awdurdod yn trefnu unrhyw gyfarfodydd yng Nghymru sy'n agored i'r cyhoedd. Parthed y safonau ar gyfer cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd, ein dealltwriaeth yw mai dim ond yr aelodau gwahoddedig o'r cyhoedd sy'n bresennol mewn cymhwyster personol fyddai angen i ni ofyn iddynt a ydynt eisiau defnyddio'r Gymraeg, ac yna trefnu ar gyfer cyfieithu ar y pryd os bydd angen. Ystyriwn hyn i fod yn rhesymol, er ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn codi. Ond byddem yn croesawu cadarnhad na fyddai'n ofynnol i ni wneud hyn ar gyfer personau yn y cyfarfod mewn cymhwyster proffesiynol.

3.10 Gan ystyried y cyfyngiadau cyfredol a achoswyd gan y pandemig, byddai hefyd yn ddefnyddiol i gael canllaw ar sut ddylid dehongli'r safonau hyn ar gyfer rhith gyfarfodydd gyda phersonau yng Nghymru.

Cwestiwn 2

3.11 Byddai'n ddefnyddiol pe byddai Rhan 3 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch safon 29 (hysbysiadau swyddogol), fel y codwyd uchod.

Cwestiwn 3

3.12 Mae'r safonau hyn i'w gweld yn rhesymol a chymesur.

Cwestiwn 4

3.13 Mae'r safonau hyn i'w gweld yn rhesymol a chymesur.

3.14 Fe ymddengys fod yna wall yn Rheoliad 2(3), Rhan 3 (5) ar dudalen 30, sy'n cyfeirio ar y dehongliad o safonau 46 a 46A ond fe dybiwn y dylai gyfeirio at safonau gweithredol 45 a 45A.

Cwestiwn 5

3.15 Mae'r safonau hyn i'w gweld yn rhesymol a chymesur.

Cwestiwn 6 / Cwestiwn 7

3.16 Tybiwn y byddai'r effaith net ar y Gymraeg yn bositif oherwydd gallai ffurfioli ein cynnig mewn safonau helpu hybu proffil y deunydd a pholisïau sydd gennym. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu hyn oherwydd mai galw isel iawn

sydd gennym a fu ar gyfer darpariaeth yn y Gymraeg yn flaenorol. Rydym hefyd yn cydnabod bod y rheoliadau yn darparu cyfle i wella ymwybyddiaeth o fewn yr Awdurdod o'n dyletswyddau cyfreithiol a sut i gydymffurfio.

Cwestiwn 8

3.17 Nid yw'n gymwys

4. Rhagor o wybodaeth

4.1 Cysylltwch â ni os yr hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymateb hwn mewn manylder. Gallwch gysylltu â ni yn:

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

E-bost: policy@professionalstandards.org.uk
Gwefan: www.professionalstandards.org.uk
Ffôn: 020 7389 8030